
# Yr her:

Yn ystod gwyliau'r Pasg, wnaethoch dderbyn hedyn hudol gan Mr Davies. Hoffwn i chi blannu'r hedyn yma'n ofalus gan sicrhau ei fod yn cael digon o ddŵr a golau haul. Beth am dynnu lluniau o'r planhigyn gan ddefnyddio camera neu wrth law? Beth am gofnodi tyfiant y planhigyn? Peidiwch anghofio ei fwydo! Edrychwch ar ei ôl! Edrychwn ymlaen at weld y planhigion yn tyfu a'ch arsylwadau.





## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth sydd angen ar blanhigyn i dyfu?
- Beth yw rhannau gwahanol y planhigyn?
- Sawl planhigyn gwahanol gallwch chi ddarganfod ar daith gerdded/yn yr ardd?
- Gallwch chi ddidoli planhigion/blodau gwahanol?
- Beth yw eich hoff flodyn? Pam?
- Pa flodau mae trychfilod yn hoffi? Pam?
- Sawl trychfil ydych chi'n gallu gweld ar eich taith gerdded/yn yr ardd?

YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN


*Nid da lle gellir gwell*

# Cynllun pythefnos: Natur/Tyfu (Bl. 5 a 6)

## Rhaid gwneud... / Must do...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.<br>• Ymarfer sillafu geiriau ar Spellblast - J2E<br>• Darllen yn reolaidd – cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TT Rockstars a J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)<br>Bl 5 a 6 - Tabl 2 - 12<br>• Adio a thynnu<br>Bl 5 i ddefnyddio rhifau 4 digid ee 3, 498 + 2,538 = / 5,794 – 3, 562<br>Bl 6 i ddefnyddio rhifau 4 digid a degolion e.e. 4.6 + 2.3 / 7.9 -3.2<br>Blwyddyn 5 a 6 - Matiau gweithdrefnol<br>• Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd<br>• Darllen yr amser fesul munud.<br>• Faint o amser mae rhywbeth yn para? ee. Pa mor hir mae rhaglenni teledu? - edrych ar amser dechrau a gorffen. Pa mor hir mae hi'n cymryd i goginio rhywbeth? Amcangyfrif pa mor hir mae gweithgareddau pob dydd yn eu cymryd. | Cadw'n heini – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw? Sesiynau 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>Helpu – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.<br>Trafod - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo. |

## Dylech wneud... / Should do...

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
|  | |  | |  | |
| ★ | Ymchwiliwch beth yw cerdd 'kenning' neu limerick'. Allwch chi greu un ar gyfer greadur neu flodyn yn eich gardd? | ★ | Ewch ar helfa blanhigion a blodau. Cofnodwch enwau a nifer pob un ar ffurf tabl. | ★ | Allwch chi ail-greu darluniau creaduriaid Charles Darwin? Lanlwythwch luniau o'ch gwaith i J2Launch. |
| ★★ | Crëwch rhestr 'A oeddech yn gwybod?' am y creaduriaid yn eich gardd. | ★★ | Mesurwch uchder y planhigion sydd yn eich gardd chi i'r mm agosaf. | ★★ | Gyda chamera, tynnwch luniau agos o flodau neu greaduriaid yn eich gardd. Gosodwch eich lluniau i Powerpoint ar ffurf sleidiau. |
| ★★★ | Dewisiwch weithgaredd ymarferol ac ysgrifennwch gyfarwyddiadau amdano e.e. plannu blodyn/llysiau a.y.b. Cofiwch gynnwys 'offer' a 'dull'. Defnyddiwch ferfau gorchmynnol -wch. Plannwch..., Defnyddiwch..., Arllwyswch... a.y.b. | ★★★ | Ewch ar helfa planhigion a blodau. Cofnodwch eich darganfyddiadau gan greu graff o'ch cofnodion o Dasg 1 ar Excel gan ddadansoddi eich canlyniadau. | ★★★ | Defnyddiwch ddeunyddiau ailgylch i greu clychsain gwynt. Tynnwch luniau o bab cam. Lanlwythwch eich lluniau a'r gwaith gorffenedig i HWB.<br>(Efallai gallai eich gwaith cyfarwyddiadau fod |

| | | |
|---|---|---|
| | | am y dasg yma?) |
| Gallaf wneud... / Can do... | | |
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen/gwylio y newyddion diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Ymchwiliad Gwyddonol – gwefan STEM: stemsational.com<br>Adnoddau Twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'Maths Factor'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com |